
# Llên natur

**Bwletin 142**
**Rhagfyr 2019**

**gan gynnwys adnodd i athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn**




**Clwydfa unigryw**
**Mulfrain y Ddwyryd**
**Llun Gwilym A. Roberts**
**(Tudalen 5)**

Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd

(Rhif Elusen: 1126027) Cymdeithas Edward Llwyd

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia

Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

## Bu adar y to wrth eu boddau!



Bu adar y tô wrth eu boddau gyda glaswellt y paith yn yr ardd heddiw. Pam tybed mae ambell un yn cario darn i ffwrdd yn ei big o dro i dro? Yn y gwanwyn byddwn wedi cymryd eu bod yn leinio'u nythod.

**Jackie Willmington**

Golan, Tachwedd 3ydd (2011) - Bore yma gweld pioden yn cario rhywbeth tebyg i neidar wair yn ei ffîg. Posib mai brigyn oedd o. adar y tô hefyd yn cario defnydd i'w nythod dan y bondo.

**Dyddiadur Natur Tom Jones, Tŷ Capel Bethel, Golan**

Bu adar y tô yn dangos yr un arwyddion nythu yma yn Waunfawr: rhywun arall wedi sylwi ar hyn? **DB**

Ai ceiliog neu iâr oedd yn cario defnydd ? **Dewi Lewis**

Cwestiwn diddorol. Pam Dewi? I ddweud y gwir be welish i oedd aderyn o siap aderyn tô yn gwibio'n sydyn i gyfeiriad y bondo heibio'r ffenest, a rhuban o wair yn disgyn o lle diflannodd, eiliadau wedyn. Y diwrnod cynt welish i aderyn tô (ceiliog dwi'n meddwl er na chymerais lot o sylw) yn diflannu y tu ôl i'r soffit yn yr un fan ag y bu adar tô yn nythu ers blynyddoedd cyn i'r ty gael ei atgyweirio yn sylweddol. Dim lot ôl help mae arna'i ofn!

**DB**

Mae ymddygiad o'r fath yn digwydd yn achlysurol. Dwi'n diawlio'n hun am beidio a'i gofnodi yn fanylach h.y. adeg o'r flwyddyn ac unai ceiliog neu iâr sydd yn cludo. Mae'n debyg mai'r cymal allweddol uchod yw hwn: "yn yr un fan ag y bu adar tô yn nythu ers blynyddoedd". Mae'n wybyddus bod adar tô ar y cyfan (fe geir eithriadau fel bron bopeth arall) yn paru am oes a hefyd yn defnyddio yr un safle nythu (fel yn Waunfawr uchod) blwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'n debyg bod dwy ddamcaniaeth posibl i egluro pam fod adar tô yn cludo defnydd nythu tu allan i'r tymor magu. Y ddamcaniaeth gyntaf yw fod y ceiliog (a'r ceiliog fydd yn dewis safle nythu cyn denu cymar) sydd wedi defnyddio'r un safle nythu dros gyfnod er mwyn dangos i geiliogod eraill (a ieir siwr o fod) mai fo sydd yn berchen ar y safle nythu hwnnw a'i fod yn cludo defnydd ychwanegol i'r hen nyth i nodi hynny. Rhyw fath o ddefod *marking my territory*. Yr ail ddamcaniaeth yw mai ceiliogod ifanc heb gymar hyd yma sydd yn cludo defnydd a hynny er mwyn ceisio hawlio'r safle ac mewn amser ddenu cymar. Rhyw fath o geisio taflu'r 'hen' geiliog oddi ar ei batch. Weithiau fe welir ieir hefyd yn cludo - fel efelychiad o ymddygiad y ceiliogod.

**Dewi Lewis**

Feddylish i rioed am y peth! Ai dy ddamcaniaethau DI ydy rheina 'ta damcaniaethau wedi eu trafod yn y llenyddiaeth? Sgwn i be sydd gan yr hen Desmond Nethersole-Thompson (un o'r monograffau cynnar) i'w ddweud am yr arferion hyn. Fydda'i yn siwr o gymryd mwy i sylw o hyn ymlaen! **DB**

J Denis Summers-Smith sydd wedi cyhoeddi sawl cyfrol ar y rhywogaethau gwahanol sy'n perthyn i'r teulu yma. Ceir cyfeiriadau at yr ymddygiad mewn ffynhonnell arall hefyd. Sefyll ar ysgwyddau y cewri dwi. **Dewi Lewis**

## Dau bach gwyn selog



Llun arall o Fedi 2018 - y ddau bach gwyn efo ei gilydd. Wel, mae nhw yn selog. **Bethan Vaughan Davies**

Eitem ar hyn o bryd ar *Countryfile* y BBC am ddraenogod liwcistig ar Ynys Aurigny *(Alderney)*. 60% ohonyn nhw yn liwcistaidd (gw. llun BVD). Cawsant eu cyflwyno yno yn answyddogol fel anifeiliaid anwes yn y 1960au ac mae nhw dibynnu i raddau helaeth ar bryfed gwymon y traethau. Mae'n debyg mai ffenomenon 'effaith yr arloyswyr' *(founder effect)*, sef nifer bychan o anifeiliaid gwreiddiol, sydd i gyfri am y lliw anarferol yno. **Llên Natur**

- **Cysylltwch â Llên Natur : llennatur@yahoo.co.uk**
- **Cofiwch : CYMUNED LLÊN NATUR (grŵp Llên Natur) ar Facebook**

## “Aderyn hollol ddiethr i mi”



Lluniau Alun Williams



Pyllau Aber Ogwen, y golau yn ofnadwy yn anffodus ond cyfle i weld a chlywed rhegen ddŵr, *Rallus aquaticus*. Tachwedd 5ed. **Alun Williams**

Fel y'i disgrifiwyd un tro -"fatha rhywun yn sbaddu mochyn". **Dewi Lewis**

Aderyn hollol ddiethr i mi. [Ac i lawer ohonom ni! (DK, Llên Natur)] **Dwyryd Williams**

**Rhegen Ddŵr**

## Seren ddaear dorchog

'*Earth Star fungus*' *Geastrum triplex* (dwi yn credu ) yn tyfu o dan cysgod pinwydden yn yr ardd, yn Rhydsarn, wedi ei dynnu 07/11/2019 yn y glaw

**Gwilym a Meryl Roberts**



**Seren ddaear dorchog**



Seren ddaear [*Geastraceae: Geastrum* yn bennaf / *earthstar*]. Yr un cyntaf i mi ei gweld erioed. Maent yn brin iawn. Mae 'na sawl rhywogaeth ond does gen i ddim syniad pa un yw hwn.
Tregarth, 8 Medi 2018 **DK**

## Cacynen goed a phryfed icnewmon



Dyma wryw y gacynen goed wedi ei dynnu oddiar y sgrin yn ystod cyflwyniad gan Sam Thomas ar bryfed y Diptera sy’n byw ar y mynyddoedd uchaf, yng nghynhadledd Cofnod yn Llandudno yn ddiweddar. Mae nifer o gofnodion o’r pry hwn yn ein cronfeydd ond benywod ydi pob un. Dywedodd Sam (a thynnu ar fy nghof) bod y gwrywod yn llawer mwy swil na’r benywod ond eu bod yn gallu cyrchu copaon y mynyddoedd uchaf (ym mis Mai?), mynyddoedd yr Aran yn arbennig. Oes gan rhywun rhywbeth i ychwanegu at y sylw difyr yma? **DB**





Dau bostiad (ar FB, CYMUNED LLÊN NATUR) o bryfed icnewmon gan Bethan Vaughan Davies wedi adnabod trwy’r wefan arbenigol ar y grŵp. Diolch am wneud y gwaith caib a rhaw Bethan! **DB**

Enw rhyfedd (?): Mae’r enw’r pryfed icnewmon yn dod o’r Lladin *“ichneumon”*, o’r hen Roeg *ἰχνεύμων (ikhneúmōn,* "*traciwr*"*)*, o *ἴχνος (íkhnos,* "trac”, cam troed). Ymddygis yr enw yn *Historia Animālium (Τῶν περὶ τὰ ζῷα ἱστοριῶν, Ton peri ta zoia historion)* gan Aristotl c.343 CC. Sylwodd Aristotl bod pryfed icnewmon sy’n ymosod ar nadrodd yn llai na gwenyn meirch cyffredin. Maen nhw’n cario eu hysglyfaeth i dwll cyn dodwy wyau i mewn y corff ac yna cau y twll gyda mwd.
*(Wikipedia)* **Llên Natur**

**Pryfed icnewmon**

**Cofiwch glicio’r eiconau am fwy o wybodaeth**

# Yr argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth

## Fenis, Awstralia, Cymru a'r Almaen

Dyma gychwyn ar nodwedd newydd Bwletin Llên Natur. Byddwn yn rhoi sylw i agweddau cyfredol o'r argyfwng, yma yng Nghymru a dros y byd o Gymuned Llên Natur (Facebook).

Weithiau y clywir am ddigwyddiadau hollol annisgwyl fel stori 'Fala, fala filoedd' yn yr afon Gŵy yn dilyn llifogydd drwy berllannau'r fro honno, hynny mewn ardal sydd wedi arfer gyda llifogydd. Dro arall clywir am ddigwyddidau hanesyddol, a brawychus i ddweud y gwir, fel y diwrnod cyntaf erioed heb ddiferyn o law ar gyfandir Awstralia cyfan. Yn sicr mae'r broblem hon yn mynd i gael effaith arnom ni i gyd yn y dyfodol - er enghraifft y math o fwyd bydd ar ein platiau.

Gwelir hefyd mor bwysig yw cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae pobl a gwleidyddion ardal Fenis wedi sylwi - braidd yn hwyr - nad yw pethau'n gwella.

Mae gan Iwerddon gynllun i blannu 440 miliwn o goed. Yma yng Nghymru un o'r cynlluniau yr ystyrir, dadleuol i rhai, yw cynllun "ailwylltio" Cymru. Cafodd y testyn hwn ei gyflwyno'n helaeth gan bennaeth Cymdeithas Eryri, John Harold ym Mhlas y Brenin ar 18 Tachwedd. Bydd yna adroddiad amdano yn y rhifyn nesaf.










Fenis

Awstralia

Ailwylltio Cymru

Yr Almaen

## Gan Sarah Davies: Cynaeafau




**Llên Natur:** Sarah, ydi'r data ei hun ar gael ar-lein tybed? Mi fuasai'n braf iawn cael edrych ar flynyddoedd arbennig (ee. 1816 "y Flwyddyn Heb Haf" ar ôl ffrwydriad llosgfynydd Tambora yn 1815).

**Sarah Davies:** *Here's a link (dolen) to the paper itself (open access) - the data are available if you click on 'supplement' under the pdf icon on the right. It's zip folder, data are in the txt file so you can import into excel. I need to get back to you about Laki (I started a reply!) - not much on that but some info on Tambora which you probably also have.* Hwyl

**Llên natur:** Diolch Sarah. Spot-on! Edrych ymlaen at glywed am Laki a Chymru.


**Rydyn ni'n chwilio am wirfoddolwr(-wyr) sy'n mwynhau 'data' i fynd trwy'r cofnodion hyn a phigo allan y rhai mwy eithafol (cynaeafau cynnar a hwyr) a'u rhoi yn y Tywyddiadur.**

**RHOWCH FLOEDD !!!**



Hinsawdd o'r gorffennol

## O rhifyn 73... Galwad Llên Natur



Llifogydd dros yr Aber yng Nghaernarfon 3 Ionawr 2014.

Rydym ni wedi trafod pob math o achosion hinsawdd yn y gorffennol ond teimlwn bod yr amser wedi dod i godi proffil yr argyfwng. Cofiwch gyfrannu o'ch profiad, boed o Gymru neu thu hwnt.

Rhifyn 73

## Darn mawr o ddefnydd plastig glas...



Bu hanes morfil sperm Rhuol ar *Autumnwatch* y BBC. Roedd y gwaith ar y corff yn parhau pryd hynny.

Glaniodd ochor Rhiw i Borth Neigwl, yr awdurdodau yn ymwybododol, y rhaffau yno iw ddal yn ei le. Posmortem yn cael ei gynal heddiw. glaniodd yn fyw bore ddoe ond roedd wedi marw o gwmpas amser cinio. **Cai Erith Williams**

A dyma rhan o adroddiad y sefydliad a arweinodd yr ymchwiliad sef CSIP (*Cetacean Strandings Investigation Programme - UK strandings)* - Hydref 30 am 11:24 - *A CSIP team from ZSL are on the road to northwest Wales to meet CSIP colleagues from Marine Environmental Monitoring and examine a sperm whale calf which live stranded and died at Hell's Mouth, Gwynedd yesterday. This is an unusual stranding, possibly only the second calf to be recorded stranded in the UK and also the first sperm whale found stranded in Wales since the routine recording of strandings began in 1913.*

*A large piece of blue plastic sheeting was found in the proximal fundic stomach and a relatively large mass of ropes, fragments of monofilament line and other plastic fragments were found within the base of the fundic stomach, along with some fragments of seaweed and a minor burden of nematode parasites. It should be noted that the marine debris had not caused an impaction and a large part of the fundic stomach was unaffected. The communications with the other stomachs appeared to be clear and were not blocked. No thickening of the stomach wall in contact with the debris material was noted. The CSIP team concluded that the blue plastic sheeting may have been relatively recently ingested; but the mass of rope and other debris at the base of the stomach appeared to be more longstanding in nature.*

**CSIP** **Daily Post**

## Pwy wnaeth?



Os ydi'n eitha clir beth ddigwyddodd i forfil ifanc Rhuol, nid yw pethau'n amlwg am gasgliad o llygod.

(10/11/2019) - Y casgliad hunllefus yma wedi ei ddarganfod dan drailer yn yr ardd. Cath?

**Peredur A Jones**

Mwy tebygol o fod yn aelod o deulu'r wenci na chath. Carlwm, wenci neu minc faswn i'n ei feddwl. Mae'r 3 ohonyn nhw yn cuddio prae fel hyn er mwyn ei fwyta'n hwyrach ymlaen. **Iolo Williams**

## Criw clen iawn




**Neges i ysgolion:** Criw clen iawn o Ysgol Tanygrisiau oedd yn mwynhau dysgu am y goedwig law heddiw (5 Tachwedd 2019)! Os ydych yn byw yn ardal y prosiect yna cofiwch ddweud wrth eich ysgol lleol bod ymweliadau ar gael am ddim!

## Clwydfa unigryw



Clwydfa unigryw Bilidowcars y Ddwyryd, lluniau wedi eu tynnu dros gyfnod o dair blynedd 2017 / 2018 / 2019. Meryl a Gwilym Arthur Roberts (llun a chlawr)

Dyma'r cofnod cyntaf dwi wedi gallu dod o hyd iddo yn y Tywyddiadur o fulfrain yn clwydo ar y peilon hwn - mae'n debyg eu bod nhw wrthi ers yn fuan ar ôl codi'r peilon - ddiwedd y '60au -

11 Awst 1988: Wil J yn dweud iddo weld c60 ar beilon Pont Briwet y dydd o'r blaen

Tybed ydyn nhw'n clwydo yno trwy'r flwyddyn ynta dim ond ar ol magu a chyn y tymor brido nesa?

Ted Breeze-Jones tynnodd ein sylw ni gyntaf at y ffenom-enon mae'n debyg.

**Meddai Gwilym:**

"Adeg clwydo mae y golau yn weddol isel hyn yn ogystal ar angen i gadw pellter call o'r glwydfan yn gwneud hi yn annodd i gael lluniau agos a chlir o'r adar. Y cyfrif uchaf sydd gennyf ydi 280+ . Mae yna tipyn o amrywiaeth yn y nifer o fewn cyfnod blwyddyn. Mae'n anhygoel fod aderyn ar math draed ar gallu i lanio ar glwyd mor fain a llithrig. Pam defnyddio clwyd mor oer, agored i'r tywydd eithaf, a mor annodd i lano arno, duw a wyr. Mae mwyafrif o'r adar yn cymeryd dwy a thair tro cyn glanio.

## Rhyfeddodau Cyttir Mawr



Roeddwn i'n meddwl am y lluniau fel rhyw fath o eginyn 'bio-flits' o rywogaethau ar un safle, sef gwarchodfa Cyttir Mawr, Llandegfan. **Delyth Phillips**

Llun Kelvin Jones

## Rhyfeddodau Rhyl



Telor Hume, *Phylloscopus humei*, Hume's leaf warbler. Brickfield Ponds, Rhyl - Tachwedd 13.

Dyma'r llun(iau) gorau fedrwn i gael o'r aderyn prin yma, golau gwael ac roedd yn cadw i ganol y brigau. Aderyn sydd yn nythu yn y mynyddoedd yng nghanol Asia ac yn gaeafu fel arfer yn India.

Rhai adaryddwyr ar ôl recordio galwad yr aderyn yma yn meddwl mae telor aelfelyn sydd yma. Nid yw yn hawdd dweud y gwahaniaeth rhwng y ddau. Sonograms yn tueddu i ffafrio telor aelfelyn.

**[ Oes 'na gonsensensws ar be ydi'o? ]** **Llên Natur**

Anodd iawn, dangos nodweddau y ddau aderyn, ond y clinchar yw y gan, felly mae rhaid mynd gyda'r sonogram. Yn anffodus tydi fy nghlyw i ddim digon da y dyddiau yma, mi ganodd yr aderyn sawl gwaith ond wnes i ddim ei glywed yn anffodus. **Alun Williams**

## Rhyfeddodau Penarth

Dyma nodyn o hen bapur newydd:

*#A Peculiar Fish caught at Penarth. On Thursday morning [7 Tachwedd 1895] last, Alfred Morgan, son of Mr George Morgan, beach inspector, caught, at about 2 o`clock in the morning, a peculiar fish, known as the Angler, but what was said to be a Shore-shark. The fish has a large, broad and depressed head, with the mouth very large. It has peculiar appendages on the head, which, when in the water hangs over the mouth, and look like a fly and it so entices fish within reach. It has eleven rows of teeth, and weighs about 30 lbs and is about 3 feet long. When full grown these fish usually weigh about 60 lbs. It is also called the fishing frog, frog fish, toadfish, goosefish, allmouth, monkfish, etc. "*

...diddorol iawn. Ia, cythraul môr oherwydd disgrifiad *"peculiar appendages on the head, which, when in the water hangs over the mouth, and looks like a fly and it so entices fish within reach"*. **Nia Haf Jones**


## Rhyfeddodau Las Palmas



Gwas y neidr - Las Palmas un wedi cael ei ddal mewn gwe pry cop a wedi boddi (Tachwedd 2019) **Derec Owen**

Y gwas neidr *Sympetrum fonscolombii*, gwäell wythïen goch, (picellwr gwythïen goch) *Red-veined Darter* dwi'n meddwl Hanes difyr amdano ym Mhrydain (fflyd mawr yma yn 2006), ond well i ni gael cadarnhad gynta. Oes gan rhywun arbenigedd? **Llên Natur**

## Rhyfeddodau Calan Gaeaf




Dim llawer o lewyrch ar yr hen fadarchen wedi noson Calan Gaeaf

Tachwedd 4ydd. 5ed diwrnod - golwg sobor iawn ar yr hen fadarchen erbyn hyn. **Iwan Williams**



Mae 'na olwg fwy mawreddog ac "arlywyddol" ar hon yng nghanol tref snobyddlyd Le Touquet yng Ngogledd Ffrainc, dafliad carreg o gartref Arlywydd Ffrainc, Emmanuel Macron - Roedd na rhai mor dreuliedig â chapiau inc (*Coprinus comatus*) Iwan Wiliams wrth ei hymyl. (15/10/2019) **DK**

## Rhywbeth arall i rhyfeddu amdano




**Llun Bethan Vaughan Davies Llambedr 1 Ionawr 2018**

# Lliwiau'r Hydref yn 2019



• Keith O'Brien • Y Cnicht • 3 Tachwedd



• Alun Williams • Cors Bodgynydd
• 4 Tachwedd




• Luned Meredith • 8 Tachwedd




• Meryl Roberts • 4 Tachwedd




• Del D'Aubray • Dyffryn Lledr, ger Bala
• 3 Tachwedd




• Ann Parry • Lôn Lâs Llanberis • 3 Tachwedd



• Gilliann Brown • 8 Tachwedd



• Vaughan Jones • Ffordd y Coleg ym Mangor
• 7 Tachwedd



• Keith O'Brien • Aberceirw • 9 Tachwedd



• Edwyna Fletcher • Blaenau Ffestiniog
• 9 Tachwedd

# Yr Oes a Fu
## Hen Gardiau Nadolig


### Y CERDYN CYNTAF





Cynlluniwyd y cerdyn Nadolig cyntaf, meddan nhw, gan John Calcott Horsley ar gyfer ei gyfaill, Henry Cole.
Argraffwyd mil ohonynt ar lithograff a'u gwerthu am swllt yr un! Fe werthwyd un yn weddol ddiweddar am bron i naw mil o bunnoedd! Yn anffodus, 'does gan Islwyn ddim un ar hyn o bryd—ond mae'n gobeithio!"




*Llyn Llyndau? Mae'n debyg mai llun Llyn Llydaw sydd yma!*




*Cerdyn anfonwyd o Abergele i Eglwysbach!*




*Cymraeg go ryfedd geir yma!*

Gareth Pritchard





*Cerdyn Nadolig dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) anfonwyd o Buenos Aires yn 1893. Dangosir baner yr Ariannin. Oedd cysylltiad â'r Wladfa tybed?*




*Cyfarchion o Gaernarfon— yn 1905*

### Cyfarchion o'r India -ar Ddeilen!



Llun anarferol wedi ei baentio ar ddeilen a welir ar y chwith . Fe'i hanfonwyd at y ddiweddar Mrs Menna Phillips, Eglwysbach (ond yn wreiddiol o Ysbyty Ifan) a fu'n genhades yn yr India, gan ddwy ddisgtbl yn y wlad honno— Maureen Diengold a Rosie.




*Anodd credu! Cerdyn Saesneg o Gapel Celyn!*